
# Grŵp Gweithredu'r Gwaharddiad ar Rasio Milgwn

## Adroddiad Cyntaf



## Tabl Cynnwys

Cefndir....................................................................................................3

Cyfarfodydd a materion sy'n codi ....................................................................4

Argymhellion ar gyfer y diwydiant neu'r llywodraeth ..........................................8

Y camau nesaf ..........................................................................................10

## Cefndir

Sefydlwyd y Grŵp Gweithredu anstatudol ("y Grŵp") ym mis Gorffennaf 2025 gan y cyn Ddirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies AS.

## Aelodaeth y Grŵp

Mae'r Grŵp Gweithredu'n cynnwys unigolion penodedig sy'n cynrychioli sbectrwm eang o'r sectorau diwydiant, iechyd a lles anifeiliaid, a chymdeithasol a chymunedol:

- **Dr Emily Blackwell** (Cadeirydd) (Athro Cyswllt mewn Ymddygiad a Lles Anifeiliaid Anwes, Ysgol Filfeddygol Bryste)
- **Allan Dallimore** (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)
- **Dr Sam Gaines** (RSPCA a Cut the Chase Coalition)
- **Dr Sarah Carr** (Milfeddyg a Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru)
- **Gareth Walters** (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)
- **Katie Bennison** (Stadiwm Milgwn Valley)
- **Yr Athro Tim Parkin** (Coleg Brenhinol y Milfeddygon)
- **Richard Brankley** Cynrychiolydd Sports Information Services (SIS) Ltd
- **Scott Fryer** (Cartref Cŵn a Chathod Battersea)
- **Vanessa Waddon** (Hope Rescue a Cut the Chase Coalition)

## Nodau ac amcanion y grŵp

Mae'r Grŵp yn cynorthwyo i weithredu gwaharddiad ar rasio milgwn yng Nghymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r grŵp yn cynnig cyngor strategol a chanllawiau ymarferol i Weinidogion Cymru, fel swyddogion sy'n goruchwylio'r dasg o bontio oddi wrth rasio milgwn. Gwna hyn trwy roi blaenoriaeth i les cŵn drwy gydol y cyfnod pontio, gan fynd ati ar yr un pryd i liniaru'r effeithiau ar yr economi a'r gymuned leol.

## Amcanion

Bydd y Grŵp yn sicrhau yr ystyrir yr holl safbwyntiau wrth weithredu'r gwaharddiad. Bydd yn cyflawni hyn trwy roi gwybodaeth a chyngor ymarferol i Weinidogion Cymru er mwyn cyflawni'r amcanion canlynol:

- Amddiffyn lles y cŵn hynny sy'n rasio yn y diwydiant ar hyn o bryd ac yn ystod y broses o weithredu'r gwaharddiad.
- Amddiffyn y sector achub rhag cynnydd posibl yn y pwysau yn sgil cyflwyno

gwaharddiad.

- Pennu arferion gorau ar gyfer y cyfnod pontio trwy ystyried dulliau â chynigion a gwaharddiadau tebyg mewn gwledydd eraill.

- Cynnig atebion ymarferol posibl ar gyfer lliniaru effeithiau cymdeithasol ac economaidd y canlyniadau a ddaw yn sgil gwahardd rasio milgwn ac awgrymu atebion ymarferol posibl ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn.

- Cynorthwyo a chefnogi gweithwyr a pherchnogion yn y diwydiant i bontio oddi wrth rasio milgwn. Mae camau pellach ar gyfer y Grŵp, y cytunir ar eu manylion maes o law, yn cynnwys:

- Pennu amserlen a llwybr hanfodol ar gyfer gweithredu gwaharddiad.

- Cynnig cyngor trwy wahanol gamau'r broses weithredu.

- Cynorthwyo Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau.

## Cyfarfodydd a materion sy'n codi

Cyfarfu'r Grŵp yn fisol yn ystod Gorffennaf, Awst, Medi, Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2025 ac Ionawr, Chwefror, Mawrth a Mehefin 2026.

Yn y cyfarfod cyntaf, a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2025, cytunodd aelodau'r grŵp ar y Cylch Gorchwyl a lluniwyd dogfen flaenoriaethau er mwyn darparu cofnod cytunedig o'r materion posibl a allai ddeillio o ganlyniad i gyflwyno gwaharddiad ar rasio milgwn yng Nghymru. Bwriad y ddogfen oedd cofnodi'r materion hynny a gâi eu pennu, eu trafod a'u cymeradwyo'n ffurfiol gan aelodau'r Grŵp, trwy oes y grŵp.

Pennwyd pum prif faes blaenoriaeth, sef: lles y cŵn; ystyriaethau gorfodi; yr effaith economaidd ar yr ardal leol; yr effaith gymdeithasol ar yr ardal leol; a'r effaith ddiwylliannol y byddai gwahardd rasio milgwn yn ei chael yng Nghymru. Isod, cyflwynir crynodeb o'r trafodaethau a gafwyd ynghylch pob un o'r pynciau hyn o dan yr amcanion cyfatebol.

## Amcan 1: Amddiffyn lles y cŵn hynny sy'n rasio yn y diwydiant ar hyn o bryd ac yn ystod y broses o weithredu'r gwaharddiad.

Pennwyd bod lles y cŵn yn flaenoriaeth, felly canolbwyntiodd y trafodaethau cychwynnol ar y canlyniadau a ddôi i ran y cŵn yn sgil cyflwyno gwaharddiad, yn cynnwys ailgartrefu cŵn sy'n rasio ar hyn o bryd yn nhrac Valley, sef yr unig drac rasio milgwn sydd ar waith yng Nghymru.

Ystyriwyd y dylid rhoi blaenoriaeth i gael gafael ar wybodaeth gywir ynglŷn â nifer y cŵn y mae gwahardd rasio milgwn yng Nghymru yn debygol o effeithio arnynt. Mae ffigurau gan Fwrdd Milgwn Prydain Fawr (GBGB) yn dangos bod 364 o gŵn wedi'u cofrestru ar hyn o bryd gyda thrac Valley (d.s. mae'r ffigur hwn yn amrywio ac mae Cut the Chase Coalition yn amcangyfrif ei fod yn uwch). Er mwyn canfod nifer y milgwn sy'n debygol o barhau i rasio y tu allan i Gymru pan ddaw gwaharddiad i rym, ynghyd â phennu statws meddygol y cŵn hynny y bydd angen eu hailgartrefu, mae ymchwilwyr yn Ysgol Filfeddygol Bryste wedi

lansio arolwg o'r deunaw hyfforddwr sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd i rasio cŵn yn nhrac Valley. Bydd y canfyddiadau'n cael eu cynnwys yn adroddiad nesaf y Grŵp.

## Amcan 2: Amddiffyn y sector achub rhag cynnydd posibl yn y pwysau yn sgil cyflwyno gwaharddiad.

Er mwyn archwilio'r pwysau cynyddol posibl ar y sector ailgartrefu yn sgil cyflwyno'r gwaharddiad, gofynnodd y Grŵp am gynlluniau ffurfiol yn nodi sut byddai modd ailgartrefu'r nifer fawr o gŵn y byddai'r gwaharddiad yn effeithio arnynt. Cyflwynwyd tystiolaeth i'r Grŵp gan Gartref Cŵn a Chathod Battersea a'r Cut the Chase Coalition (sef y Groes Las, Dogs Trust, Achub Milgwn Cymru, Hope Rescue a'r RSPCA) ar ran Grŵp Partneriaeth Milgwn Cymru. Mae'r Grŵp Partneriaeth yn cynnwys naw aelod ac fe'i ffurfiwyd ym mis Mawrth 2025 er mwyn helpu i reoli cŵn y bydd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru i wahardd rasio yn effeithio arnynt. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn ategu'r honiad y gellid llwyddo i ailgartrefu'r holl filgwn sy'n rasio ar hyn o bryd yn yr unig drac rasio milgwn yng Nghymru – sef trac Valley – trwy gael y rhwydwaith presennol o sefydliadau ailgartrefu i weithio ar y cyd, heb unrhyw amser arwain.

Ond o ystyried nifer amcangyfrifedig y cŵn a fu'n rasio yng Nghymru yn 2025, ynghyd ag arhosiad o ddeufis ar gyfartaledd mewn llety ailgartrefu, argymhellir y dylid caniatáu cyfnod o ddeuddeg mis ar gyfer dirwyn rasio i ben yn raddol, er mwyn gallu cael amserlen ailgartrefu fwy ymarferol sy'n canolbwyntio mwy ar les (gweler Argymhelliad 1). Fodd bynnag, nid oedd holl aelodau'r grŵp yn rhannu'r farn hon. Oherwydd yr ystyriaethau ymarferol, roedd Katie Bennison o'r farn fod dirwyn yr arfer i ben yn raddol yn anymarferol. Yn hytrach, cynigiodd y dylid pennu dyddiad cychwyn penodol; ac ar ôl y dyddiad hwnnw, byddai'r rasio'n dod i ben yn gyfan gwbl. Byddai angen cytuno ar yr union ddyddiad, ond ni ddylai fod ynghynt na blwyddyn ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol, yn hytrach na dirwyn rasio i ben yn raddol.

Dywedwyd bod yr amser ar gyfer ailgartrefu milgwn ychydig yn hwy na'r cyfartaledd, ac yn ôl aelodau'r Gymdeithas Cartrefi Cŵn a Chathod (ADCH) roedd hyd cyfartalog pob arhosiad rhwng 71 ac 87 diwrnod. O ystyried yr arosiadau hwy mewn lletyau cŵn, cyfrifwyd bod cost y broses ailgartrefu rhwng £2,200-£2,800 ar gyfer pob ci. Er bod y sefydliadau ailgartrefu wedi cytuno i dalu'r costau ailgartrefu pe bai angen, heb gael arian gan Lywodraeth Cymru, byddai cael bond ymddeol gan Fwrdd Milgwn Prydain Fawr ar gyfer pob ci a ailgartrefir yn helpu i leihau'r costau hyn. Mae'r Grŵp wedi gofyn i Fwrdd Milgwn Prydain Fawr a fyddai'n fodlon talu'r bond ymddeol (sef £420) i bob sefydliad ailgartrefu cymwys, fel y gellid defnyddio'r arian i dalu'r costau sy'n gysylltiedig ag arosiadau milgwn yn y ganolfan ailgartrefu hyd nes y gellir dod o hyd i gartrefi parhaol ar eu cyfer (gweler **Argymhelliad 2)**.

Yn achos milgwn a arferai rasio, roedd yr arhosiad hwy mewn lletyau ailgartrefu yn gysylltiedig â'r oedi cyn sbaddu milieist ar ôl dirwyn y driniaeth atal oestrws i ben a'r diffyg cofnodion meddygol ar gyfer y cŵn, yn enwedig hanes eu brechiadau. Bydd arolwg Ysgol Filfeddygol Bryste o hyfforddwyr yn amcangyfrif nifer y cŵn y bydd hyn yn effeithio arnynt. Er mwyn hwyluso'r broses ailgartrefu, mae'r sefydliadau ailgartrefu angen hanes milfeddygol y cŵn (gweler Argymhelliad 3). Byddai parhau i atal oestrws yn byrhau o leiaf dri mis ar y cyfnod cyn sbaddu milieist, ond ni wyddys beth yw'r effeithiau ac o'r herwydd dylid gwneud penderfyniadau fesul achos.

Er mwyn amddiffyn lles y cŵn yn ystod y broses ailgartrefu, cytunwyd y dylid pennu gofynion lles ar gyfer sefydliadau sy'n gysylltiedig ag ailgartrefu cŵn, a chytunwyd y dylai'r sefydliadau hynny roi gofynion lles o'r fath ar waith. Er enghraifft, aelodaeth o'r Gymdeithas Cartrefi Cŵn a Chathod neu sefydliad sy'n arbenigo mewn ailgartrefu milgwn. Er mwyn diogelu lles y cŵn a gaiff eu hailgartrefu, mae'r Grŵp yn argymell y dylid cael proses annibynnol ar gyfer monitro safonau lles y sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r broses ailgartrefu (gweler Argymhelliad 4). Er mwyn hwyluso'r broses ailgartrefu, mae'r Grŵp hefyd yn argymell y dylid lansio ymgyrch bwrpasol ar gyfer cynyddu cyfleoedd ailgartrefu a lleihau hyd yr arosiadau, ac y dylid ategu hyn oll gyda chanllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch milgwn a arferai rasio (gweler **Argymhelliad 5**).

Mae angen deall yr effaith drawsffiniol y bydd y gwaharddiad yn ei chael ar les cŵn. Mynegodd aelodau'r Grŵp bryderon ynglŷn â bridio/magu cŵn yng Nghymru ar gyfer eu rasio mewn gwledydd eraill, oherwydd gallai arfer o'r fath arwain at siwrneiau maith i'r cŵn. Yn Awstralia, mae'r 'New South Wales Greyhound Racing Ban Bill 2025' yn gwahardd yr arfer o fridio cŵn at ddibenion rasio, a hefyd mae'n gwahardd yr arfer o drosglwyddo neu allforio cŵn ar gyfer eu rasio mewn awdurdodaethau eraill. O'r herwydd, mae'r Grŵp yn argymell y dylid cynnwys yr effaith drawsffiniol mewn adolygiad ôl-weithredu (gweler **Argymhelliad 6**).

Hefyd, mynegodd aelodau'r Grŵp bryderon ynglŷn ag ôl-lenwi'r garfan bresennol o gŵn, a chynigiwyd y dylid rhoi'r gorau i gofrestru cŵn o'r newydd yn nhrac Valley cyn i'r gwaharddiad ddod i rym. Ond roedd aelodau eraill o'r farn y gallai cam o'r fath gyfyngu fwyfwy ar ffrydiau incwm hyfforddwyr ac y byddai'n anodd ei orfodi o gofio na chaiff milgwn eu cofrestru ar gyfer rasio ar draciau penodol. Ni lwyddwyd i gael consensws ynglŷn â'r mater hwn.

Er mwyn atal hyfforddwyr rhag defnyddio'r cynllun ailgartrefu i ailgartrefu cŵn nad ydynt yn gysylltiedig â thrac Valley, neu er mwyn eu hatal rhag ymddeol yr holl gŵn ar yr un pryd, mae'r Grŵp yn llunio dogfen sy'n nodi meini prawf cymhwystra ar gyfer ailgartrefu, a allai gynnwys rhag-gymeradwyaeth cyn i'r gwaharddiad ddod i rym. Bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau bod y cŵn wedi cael unrhyw driniaeth feddygol angenrheidiol cyn iddynt ymddeol, ac y cânt eu trosglwyddo gyda'r wybodaeth feddygol berthnasol. Mae trafodaethau'n parhau i gael eu cynnal ynghylch pa mor ddiweddar y bydd yn rhaid i'r cŵn fod wedi rasio yn nhrac Valley, ynghyd â meini prawf cymhwystra eraill. Awgrymwyd y dylid llunio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Partneriaeth Milgwn Cymru a Stadiwm Milgwn Valley er mwyn hwyluso'r broses bontio ar gyfer cŵn sy'n symud o'r diwydiant i'r sector ailgartrefu, ynghyd â sicrhau eu lles. Mae'r Grŵp yn trafod manylion memorandwm cyd-ddealltwriaeth o'r fath ar hyn o bryd.

## Amcan 3: Pennu arferion gorau ar gyfer y cyfnod pontio trwy ystyried dulliau cynigion a gwaharddiadau tebyg mewn gwledydd eraill.

Mae'r Grŵp yn datblygu protocol ar gyfer pennu cŵn sy'n gymwys i gael eu hailgartrefu (h.y. cŵn sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd i rasio yn nhrac Valley) a'u hailgartrefu'n effeithlon, ar sail profiadau aelodau'r Grŵp o gau trac rasio milgwn Swindon.

Anfonwyd cais at Fwrdd Milgwn Prydain Fawr yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â phrosesau cyfredol sydd ar waith wrth gau traciau, ynghyd â data am iawndal.

## Gorfodi’r gwaharddiad

Yn Seland Newydd, awdurdodau lleol sy’n gyfrifol am blismona rasio anghyfreithlon, gydag elusennau’n monitro’r sefyllfa. Mae gan awdurdodau lleol Cymru bŵer i orfodi’r gwaharddiad, ac mae Cyngor Bwrdeistref Caerffili wedi cadarnhau nad oes angen unrhyw adnoddau ychwanegol ar hyn o bryd ar gyfer gorfodi’r gwaharddiad. Awgrymodd y Grŵp y dylid monitro’r arfer anghyfreithlon o hela ysgyfarnogod, ond ym marn yr aelodau gellir lliniaru hyn trwy sicrhau sianeli ailgartrefu priodol. Pe bai unigolion yn parhau i rasio milgwn yng Nghymru ar ôl i waharddiad ddod i rym, ym marn y Grŵp dylai’r unigolion hynny wynebu’r posibilrwydd y bydd eu trwydded yn cael ei diddymu gan Fwrdd Milgwn Prydain Fawr (gweler **Argymhelliad 7**).

## Amcan 4: Cynnig atebion ymarferol posibl ar gyfer lliniaru effeithiau cymdeithasol ac economaidd y canlyniadau a ddaw yn sgil gwahardd rasio milgwn ac awgrymu atebion ymarferol posibl ar gyfer mynd i’r afael â’r materion hyn.

Mae’r Grŵp wedi pennu effeithiau economaidd ar yr ardal leol yn sgil gwahardd rasio milgwn, sef effeithiau ar y canlynol:

- Cyflenwyr trac Valley
- Cyflenwyr hyfforddwyr milgwn e.e. bwyd ar gyfer y cŵn, gofal milfeddygol
- Contractwyr sy’n gweithio yn nhrac Valley e.e. milfeddygon
- Staff a gyflogir yn uniongyrchol gan drac Valley
- Busnesau lleol e.e. gwestywyr a manwerthwyr tanwydd

Nid yw’r costau hyn wedi cael eu meintoli eto, ac ar hyn o bryd mae’r Grŵp yn archwilio’r angen am ragor o wybodaeth fel y gellir llunio mesurau lliniaru pe bai angen. Awgryma rhagolygon y diwydiant y byddai contract y cyfryngau ar gyfer trac Valley yn cyfateb i £15 miliwn dros y pum mlynedd nesaf, gan barhau ar drefniant treigl o bosibl wedi hynny.

Mae effeithiau cymdeithasol y gwaharddiad yn cynnwys yr effaith ar y cyhoedd sy’n ymweld â’r trac. Mae’r Grŵp wedi cael data amcangyfrifedig ynglŷn â nifer y bobl sy’n ymweld â thrac Valley, ond nid yw nifer y bobl a ymwelodd â’r trac ‘yn y cnawd’ wedi’i ddilysu hyd yn hyn. Ni chaiff nifer yr ymwelwyr ei gofnodi’n ffurfiol; ond bydd hyn yn cael ei roi ar waith gan drac Valley yn y dyfodol. Hefyd, gofynnwyd i drac Valley gyflwyno manylion am gapasiti’r lleoliad.

Ymhellach, ceir ôl-effeithiau posibl ar y rhai sy’n gwylio rasys trac Valley ar-lein; er, bydd modd iddynt barhau i ffrydio rasys milgwn a gynhelir y tu allan i Gymru. Mae gwefan rasio Sports Information Services Ltd (SIS Ltd) wedi cyflwyno ffigurau’n ymwneud â gwylio rasys ar-lein. Cyfrannodd rasys Valley 4.2% at gyfanswm y gwylwyr byd-eang eleni; mae hyn yn cyfateb i 325,000 o ymwelwyr ac 1.6M o edrychiadau ledled y DU, gydag 13,400 o ymwelwyr a 78,000 o edrychiadau’n tarddu o Gymru.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol (tudalen Facebook Stadiwm Milgwn Valley) yn arwydd arall o'r modd mae'r cyhoedd yn ymhél â'r trac. Mae Valley wedi darparu metrigau ar gyfer gwelededd cyffredinol: llwyddodd y dudalen i ddenu 5,245 o ddilynwyr unigryw, 691,000 o edrychiadau ar y cynnwys, a 21,000 o achosion ymgysylltu (hoffi, ymatebion, sylwadau, rhannu, cliciau ac arbedion).

## Amcan 5: Cynorthwyo a chefnogi gweithwyr a pherchnogion yn y diwydiant i bontio oddi wrth rasio milgwn.

Mae'r Grŵp yn ystyried sut cafodd y broses o bontio oddi wrth rasio milgwn ei rheoli mewn gwledydd eraill wrth gyflwyno gwaharddiadau a hefyd wrth gau traciau yn y Deyrnas Unedig, ynghyd â'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer hyfforddwyr milgwn mewn gwledydd lle mae rasio milgwn wedi dod i ben.

Pennwyd gwybodaeth am gymorth penodol sydd ar gael i weithwyr perthnasol a hyfforddwyr milgwn sy'n rasio cŵn yn Valley ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at y cymorth presennol sydd ar gael i weithwyr Valley a hyfforddwyr yng Nghymru, trwy gyfrwng y Grŵp. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys gwefan Cymru'n Gweithio, sef porth cenedlaethol ar gyfer cael gafael ar gyngor a chymorth yn ymwneud â chyflogadwyedd, dileu swyddi ac ailhyfforddi. Rhannwyd y manylion gyda'r holl hyfforddwyr. Mae'r safle'n cynnwys gwybodaeth am y gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael a'r modd y gall staff Valley gael gafael ar gymorth.

Yn amodol ar gymhwystra, gallai'r bobl dan sylw gael gafael ar y rhaglenni hyn, gyda Llywodraeth Cymru yn hwyluso'r ymgysylltu pan fo hynny'n briodol (gweler **Argymhelliad 8**). Mae'r prosiect ymchwil a gynhelir gan Ysgol Filfeddygol Bryste yn anelu at gynnal trafodaeth gyda hyfforddwyr sy'n rasio cŵn yn nhrac Valley ar hyn o bryd ynghylch yr hyn y bwriadant ei wneud ar ôl i'r gwaharddiad ddod i rym.

## Argymhellion

### Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru ddirwyn rasio i ben yn raddol dros gyfnod o ddeuddeg mis er mwyn hwyluso'r gwaith o ailgartrefu'r milgwn sy'n rasio ar hyn o bryd yn nhrac Valley.

### Argymhelliad 2

Mae'r Grŵp Gweithredu'n dymuno cynorthwyo Llywodraeth Cymru i sicrhau y telir bond ymddeol Bwrdd Milgwn Prydain Fawr ar gyfer pob milgi a fydd yn ymddeol i sefydliadau ailgartrefu cymwys, nid sefydliadau a gymeradwyir o dan gynllun ymddeol Bwrdd Milgwn Prydain Fawr yn unig.

### Argymhelliad 3

Dylai canolfannau cartrefu cymeradwy'r Cynllun Ailgartrefu Milgwn, aelodau'r Cut the Chase Coalition, Grŵp Partneriaeth Milgwn Cymru, ac unrhyw sefydliad arall sy'n ailgartrefu milgwn ac sy'n gysylltiedig â thrac Valley, ei gwneud yn ofynnol i hyfforddwyr/perchnogion milgwn drefnu i'w cŵn gael eu sbaddu/cyweirio pa bryd bynnag y

bo modd, ynghyd â darparu hanes milfeddygol cyfredol ar gyfer y cŵn y bwriedir eu hailgartrefu.

**Argymhelliad 4**

Dylai sefydliadau ailgartrefu milgwn bennu a mabwysiadu safonau sy'n gydnaws â lles, a dylid rhoi trefniant monitro annibynnol ar waith. Dylid llunio Cylch Gorchwyl a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i hwyluso'r arfer o rannu gwybodaeth, dylid sicrhau y cydweddir â safonau lles, a dylid cefnogi'r sefydliadau perthnasol i gofrestru'n ffurfiol.

Argymhellir y dylid gofyn i Trwyddedu Anifeiliaid Cymru fonitro safonau lles, ac y dylai'r sefydliadau ailgartrefu adrodd yn ôl i'r Grŵp yn fisol.

**Argymhelliad 5**

Dylai'r Cut the Chase Coalition, Grŵp Partneriaeth Milgwn Cymru a Bwrdd Milgwn Prydain Fawr lansio ymgyrch ailgartrefu er mwyn dod o hyd i gartrefi ar gyfer milgwn a arferai rasio, a dylid rhoi canllawiau sy'n ymwneud yn benodol ag adsefydlu milgwn rasio i'r perchnogion newydd.

**Argymhelliad 6**

Dylai'r Grŵp fod yn rhan o unrhyw adolygiad ôl-weithredu a gynhelir gan Lywodraeth Cymru ar y ddeddfwriaeth fel y gellir asesu effeithiolrwydd ac effaith y ddeddfwriaeth, yn cynnwys yr effaith drawsffiniol sy'n gysylltiedig â dirwyn rasio milgwn i ben yng Nghymru.

**Argymhelliad 7**

Dylai Bwrdd Milgwn Prydain Fawr ddiddymu trwydded unrhyw hyfforddwr a fydd yn rasio milgwn yng Nghymru ar ôl i'r gwaharddiad ddod i rym.

**Argymhelliad 8**

Dylai Llywodraeth Cymru gynorthwyo'r unigolion hynny y bydd gwahardd rasio milgwn yn effeithio arnynt trwy eu galluogi i gael gafael ar raglenni cymorth cyflogaeth. Dylai cymorth o'r fath eu cyfeirio at wasanaethau perthnasol, canllawiau ar gymhwystra, a chymorth ar gyfer llywio trwy'r ddarpariaeth sydd ar gael. Bydd y Grŵp yn cynorthwyo yn hyn o beth trwy helpu i ganfod y bobl hynny y bydd y gwaharddiad yn effeithio arnynt trwy gyfrwng ei gysylltiadau ei hun â'r diwydiant. Byddai mesurau o'r fath yn helpu'r gweithwyr o dan sylw i bontio i gyflogaeth arall, a hefyd byddent yn lleihau effaith economaidd-gymdeithasol y gwaharddiad ac yn cynorthwyo'r farchnad lafur i addasu, gan sicrhau ar yr un pryd y byddai amcanion polisi'r gwaharddiad yn cael eu cyflawni.

## Y camau nesaf

Mae'r Grŵp wedi trafod y ffaith nad yw mewn sefyllfa i gynnig mesurau ar gyfer lliniaru effeithiau cymdeithasol ac economaidd, gan nad yw lefel angenrheidiol y manylion ar gael ar hyn o bryd. Er bod y mater wedi'i grybwyll a'i drafod, mae diffyg gwybodaeth bellach yn cyfyngu ar allu'r Grŵp i ddeall neu asesu'n llwyr beth fydd effeithiau cymdeithasol ac economaidd posibl y gwaharddiad. Eisoes, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiadau ar sail data sydd ar gael yn gyhoeddus, ac efallai y bydd unrhyw asesiad pellach yn

wynebu'r un cyfyngiadau os na ddaw tystiolaeth ychwanegol i law. Er yr awgrymwyd y gellid cynnal asesiad o'r effeithiau economaidd, efallai y byddai'r asesiad hwnnw hefyd yn wynebu cyfyngiadau yn sgil diffyg data hygyrch ar gyfer gwerthuso'r effeithiau ehangach. Pe bai'r Grŵp o'r farn bod modd cynnal dadansoddiad pellach, efallai y byddai modd iddo nodi sut gellid cyflawni hynny gyda'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

## Pennu amserlen a llwybr hanfodol ar gyfer gweithredu gwaharddiad

Yn awr, bydd y Grŵp yn canolbwyntio ar ddatblygu cynllun gweithredu clir a chyraeddadwy gogyfer pontio tuag at waharddiad. Bydd y gwaith hwn yn cynorthwyo Gweinidogion Cymru i wneud penderfyniadau cytbwys, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ynghylch pryd y dylid dod â'r gwaharddiad i rym, o fewn y cyfnod a ddarperir yn y ddeddfwriaeth. Bydd cynllun gweithredu'n cael ei gyflwyno yn adroddiad y Grŵp yn yr hydref.

Bydd y Grŵp yn canolbwyntio ar bennu'r camau ymarferol sy'n angenrheidiol ar gyfer weithredu'r gwaharddiad, ynghyd â chynnig cyngor ynghylch camau ymarferol o'r fath. Hefyd, bydd yn sicrhau y bydd unrhyw effeithiau a all ddeillio o'r gwaharddiad yn cael eu deall yn llwyr a'u lliniaru'n briodol, pan fo modd. Ymhellach, bydd y Grŵp yn parhau i fwrw ymlaen â gwaith i gyflawni'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn, yn cynnwys y rhai sy'n berthnasol i'w waith parhaus.

Bydd hyn yn cynnwys:

- pennu llwybr hanfodol ac amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu'r gwaharddiad, yn cynnwys dibyniaethau a cherrig milltir allweddol;
- ystyried a darparu cyngor a chanllawiau'n ymwneud â phennu sut gellid rheoli a lliniaru effeithiau economaidd a chymdeithasol yn ymarferol;
- parhau i fonitro a llunio adroddiadau am yr effaith a ddaw yn sgil troi'r ddeddfwriaeth yn Ddeddf a rhoi'r gwaharddiad mewn grym; dylid cynnwys pethau fel staffio, niferoedd yr hyfforddwyr, a nifer y cŵn y mae angen eu hailgartrefu (ac i ble y byddant yn mynd);
- ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch gwasanaethau cymorth cyflogadwyedd a sgiliau er mwyn sicrhau bod darpariaeth briodol ar waith ar gyfer gweithwyr ac eraill yn ystod y cyfnod pontio;
- gweithio gyda sefydliadau ailgartrefu er mwyn helpu i gyflawni ar raddfa, yn cynnwys archwilio ffyrdd o ategu cyllid a chapasiti, megis mynediad at wasanaethau sbaddu/cyweirio a bond ymddeol Bwrdd Milgwn Prydain Fawr;
- cynorthwyo i ddatblygu safonau sy'n gydnaws â lles ar gyfer sefydliadau ailgartrefu milgwn, yn cynnwys datblygu Cylch Gorchwyl a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i hwyluso'r arfer o rannu gwybodaeth, sicrhau y cydweddir â safonau lles, a chefnogi'r sefydliadau perthnasol i gofrestru'n ffurfiol (**Argymhelliad 4**);
- cynorthwyo i gyflawni ymgyrch ailgartrefu gydgysylltiedig, ar y cyd â'r Cut the Chase Coalition, Partneriaeth Milgwn Cymru a Bwrdd Milgwn Prydain Fawr fel y gellir canfod cartrefi addas i filgwn a arferai rasio, a rhoi canllawiau sy'n ymwneud yn

benodol ag adsefydlu milgwn rasio i'r perchnogion newydd; (**Argymhelliad 5**).

- ymgysylltu â hyfforddwyr er mwyn deall yr hyn mae'r cyfnod pontio yn ei olygu iddynt ac er mwyn eu cynorthwyo trwy'r pontio, yn cynnwys ystyried opsiynau a gweithgareddau sydd ar gael iddynt yn y dyfodol;

- ystyried y modd y gellir defnyddio safle Valley yn y dyfodol a'r goblygiadau i'r economi a'r gymuned leol;

- pennu unrhyw wybodaeth benodol arall sy'n angenrheidiol i ategu'r broses gyflawni, yn enwedig o ran ailgartrefu a chynllunio ar gyfer pontio.

Bydd y gwaith hwn yn ategu cynllun gweithredu cadarn a fydd yn seiliedig ar dystiolaeth, gan ddangos bod yr holl ystyriaethau angenrheidiol wedi'u hystyried a bod mesurau lliniaru priodol ar waith pan fo modd i ategu pontio effeithiol a than reolaeth.